ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Bwletin Ystadegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17
# Gofal Plant

**30 Ionawr 2018**
**SB 3/2018**

Gofynnodd Arolwg Cenedlaethol Cymru amrywiaeth o gwestiynau i rieni yn ymwneud â defnydd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol. Roedd cwestiynau pellach yn holi am fforddiadwyedd, argaeledd a bodlonrwydd â gofal plant ffurfiol. Cafodd y cwestiynau eu cynnwys i gael tystiolaeth i ategu datblygiad polisi gofal plant.

## Canfyddiadau allweddol

- Roedd ar 47% o rieni â phlentyn 0-14 oed angen gofal plant er mwyn eu galluogi i weithio, astudio neu gael hyfforddiant.

**O blith y rhieni hyn:**

- Roedd 76% yn defnyddio teulu neu ffrindiau'n ddi-dâl i ofalu am eu plant; roedd 26% yn cyfuno hyn â gofal plant mwy ffurfiol.
- Roedd 19% o rieni a oedd yn defnyddio gofal plant yn defnyddio gofal plant ffurfiol; a 7% yn talu am eu teulu a'u ffrindiau i ofalu am eu plentyn.
- Roedd 43% yn ei chael yn anodd fforddio gofal plant (17% yn anodd iawn).




- Roedd 29% yn ei chael yn anodd i gael gofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gweithio.
- Gallai 43% gael gafael ar ofal plant yn y Gymraeg os oeddent yn dymuno, dywedodd 22% na fyddent yn gallu, ac nid oedd 36% yn gwybod a oedd ar gael.
- Roedd 93% o rieni'n fodlon ag ansawdd gofal plant ffurfiol (72% yn fodlon iawn, 21% yn weddol fodlon).

## Am y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau 2016-17 i'r cwestiynau ar **ofal plant**.

Mae'r holiadur llawn ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol.

Gellir gweld tablau ychwanegol drwy'r Dangosydd canlyniadau

## Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad 2
Defnydd o ofal plant 3
Mathau o ofal plant 5
Fforddiadwyedd 7
Gofal plant yn y Gymraeg 9
Bodlonrwydd ag ansawdd gofal plant 9
Termau a diffiniadau 11
Gwybodaeth ansawdd allweddol 12

Ystadegydd: Simran Vaja / Siobhan Evans ~ 0300 025 5050 ~ arolygon@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050 Twitter: @ystadegaucymru

## Cyflwyniad

Mae Blynyddoedd Cynnar yn un o bum thema blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o dan Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol. Y nod yw sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a bod pawb yn cael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Mae tystiolaeth sylweddol sy’n dangos mai darparu’r cymorth cywir i bob plentyn yw’r ffordd gorau o dorri’r cylch tlodi, ac i godi dyheadau a chyrhaeddiad i bawb. Mae mynychu lleoliad gofal plant o ansawdd uchel neu ddarparwr addysg blynyddoedd cynnar yn dylanwadu’n drwm ar ddatblygiad plentyn, yn enwedig y plant hynny sy’n dod o gefndir difreintiedig. Mae gofal plant fforddiadwy, hyblyg a hygyrch hefyd yn galluogi rhieni i weithio neu ddilyn hyfforddiant.

Cafodd cwestiynau’r Arolwg Cenedlaethol ar ofal plant eu gofyn i gael tystiolaeth bellach a fyddai’n sail i ddatblygu’r meysydd polisi hyn. Bydd y cwestiynau a ofynnwyd yn helpu i benderfynu a yw ffactorau fel diffyg gofal plant neu’r gost neu anallu i gael gafael ar ofal plant yn dylanwadu ar benderfyniad rhiant i beidio gweithio, neu i weithio llai o oriau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos y gwaith ar y Cynnig Gofal Plant, sydd â’r nod o helpu teuluoedd sy’n gweithio. Mae sylwadau ar ansawdd gofal plant ac argaeledd darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd o ddiddordeb arbennig i Lywodraeth Cymru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru sef y cyngor sgiliau sector ar gyfer gofal plant yng Nghymru yn gweithio i hybu twf yn y sector ac i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau, i hyrwyddo llwybrau gyrfa, a hybu sgiliau iaith Gymraeg ymhlith y gweithlu gofal plant.


Bydd cynllun 10 mlynedd y gweithlu ar gyfer gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yn cael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf a bydd y canlyniadau o’r Arolwg Cenedlaethol yn cael eu defnyddio fel sail i’r cynllun ac i gynnig gofal plant Llywodraeth Cymru.

Cafodd cwestiynau ar ofal plant eu gofyn gyntaf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15. Cafodd llawer o’r un cwestiynau eu gofyn eto yn 2016-17 ac mae’r bwletin hwn yn cyflwyno’r canfyddiadau diweddaraf ac yn trafod newidiadau dros amser os ydynt yn arwyddocaol.

## Defnydd o ofal plant

Dywedodd 47% o rieni â phlentyn 0-14 oed bod angen iddynt drefnu i'w plentyn gael gofal fel y gallant weithio, astudio neu ddilyn hyfforddiant. Gan ddibynnu ar oedran y plentyn, roedd yr angen am ofal plant yn amrywio, fel y gwelir yn Siart 1.


**Siart 1: Yr angen i drefnu gofal plant, yn oedran y plentyn**




Yn 2016-17, roedd 27% o rieni â phlentyn o dan flwydd oed yn trefnu gofal plant o'i gymharu â 60% o bobl â phlentyn blwydd oed. Mae'r gyfran isel hon ar y dechrau'n cael ei hesbonio mae'n debyg trwy gyfnod absenoldeb rhiant sy'n cynnwys rhan neu'r cyfan o flwyddyn gyntaf y plentyn, Mae'r galw am ofal plant ar ei uchaf rhwng 1 a 3 oed. Rhwng 4 a 10 oed mae dros 50% o rieni'n trefnu gofal plant i'w plentyn, ac mae'r gyfran hon yn gostwng wrth i oed y plentyn gynyddu. Roedd y patrwm hwn o angen yn wir hefyd yn 2014-15.

Mae Siart 2 yn dangos sut y gall presenoldeb plentyn ar yr aelwyd effeithio ar yr angen i drefnu gofal plant tra bydd y rhiant yn gweithio, yn astudio neu'n mynd ar hyfforddiant.


**Siart 2: Yr angen i drefnu gofal plant, yn ôl nifer y plant ar yr aelwyd**



Mae'n ymddangos bod presenoldeb plant eraill ar yr aelwyd hefyd yn dylanwadu ar yr angen am ofal plant. Mae Siart 2 yn dangos bod aelwydydd ag un neu ddau o blant ag anghenion gofal plant tebyg (mae tua 50% angen gofal plant ac nid yw 50% ei angen). Fodd bynnag, os oedd gan aelwyd dri neu fwy o blant dywedodd 65% o bobl nad oedd angen iddynt drefnu gofal plant fel y gallant weithio, astudio neu fynd ar hyfforddiant. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu yn achos y rhan fwyaf o deuluoedd mwy bod naill ai un rhiant yn aros gartref i ddarparu gofal plant neu fod plentyn hŷn ar yr aelwyd yn ymgymryd â'r rôl hon. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg iawn i'r rhai yn 2014-15.

Roedd statws economaidd yr aelwyd yn dylanwadu ar yr angen am ofal plant. Pan oedd yr holl oedolion ar yr aelwyd yn gweithio, roedd yr angen i drefnu gofal plant yn sylweddol uwch nag mewn aelwydydd lle'r oedd rhai o'r oedolion yn gweithio neu lle nad oedd dim o'r oedolion yn gweithio. Gwelir yn isod yn Siart 3.

**Siart 3: Yr angen i drefnu gofal plant, yn ôl statws cyflogaeth yr aelwyd**




Roedd ar 13% o bobl mewn aelwydydd lle nad oedd neb yn gweithio angen gofal plant, mae hyn yn debyg o fod er mwyn astudio neu i gael hyfforddiant. Dywedodd 38% o aelwydydd â phlant lle'r oedd yr holl oedolion (un neu fwy) yn gweithio nad oedd angen iddynt drefnu gofal plant; gellir egluro hyn trwy: fod y plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol, bod gan y rhieni batrymau gweithio hyblyg a bod plant hŷn ar yr aelwyd.


Roedd angen i 57% o unigolion mewn gwaith drefnu gofal plant o'i gymharu ag 20% o'r rhai a oedd yn ddi-waith ac 16% o'r rhai a oedd yn economaidd anweithgar[1].

[1] Am wybodaeth am statws economaidd, gweler Termau a Diffiniadau

## Mathau o ofal plant

Gofynnwyd i rieni ddewis cymaint o fathau o ofal plant ag yr oeddent wedi'u defnyddio o restr o opsiynau.

### Siart 4: Mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd




Mae'r categori 'arall' yn cynnwys y rhai a oedd wedi dewis 'Meithrinfa/ cyn-ysgol (di-dâl)', 'Nani neu au pair', Gwarchodwr plant sy'n dod i'r cartref comes to ac 'unrhyw fath arall o ofal plant ffurfiol'

Mae Siart 4 yn dangos mai gofal plant di-dâl a ddarparwyd gan deulu a ffrindiau oedd y dewis mwyaf poblogaidd (76%). Roedd 7% arall o bobl yn talu teulu a ffrindiau i ofalu am eu plant. Roedd y ddau ganlyniad uchod yn debyg i rai 2014-15. Roedd 15% o bobl yn defnyddio 'clybiau ar ôl ysgol neu frecwast' ac roedd hyn yn dangos cynnydd o 4 pwynt canran o'i gymharu â chanlyniadau 2014-15. Roedd 26% o bobl a oedd yn dewis gofal plant di-dâl gan deulu a ffrindiau hefyd yn defnyddio dulliau gofal plant eraill.

Os oedd rhieni'n defnyddio teulu a ffrindiau'n ddi-dâl fel ffynhonnell gofal plant, gofynnwyd iddynt am sawl awr yr wythnos oedd eu plant yn cael gofal am ddim, tra'r oeddent yn gweithio neu ag ymrwymiadau eraill. Roedd 10% o rieni angen i'w teulu a ffrindiau i ofalu am eu plant am lai nag un awr yr wythnos, roedd 51% o rieni'n defnyddio gofal plant a ddarparwyd gan deulu a ffrindiau am o leiaf 1 awr ond am lai na 10 awr yr wythnos, roedd 32% o rieni'n ei ddefnyddio am rhwng 10 awr ond llai na 30 awr yr wythnos ac roedd ar 7% angen y math hwn o ofal plant am o leiaf 30 awr yr wythnos.

Gwnaethpwyd dadansoddiad mwy manwl[2] i ganfod pwy oedd fwyaf tebygol o fod angen ffrindiau a theulu i ofalu am eu plant yn ddi-dâl am o leiaf 10 awr yr wythnos. Cafodd nifer o ffactorau eu hystyried, gan gynnwys oedran y rhiant, rhywedd y rhiant, oedran y plentyn, am sawl awr yr wythnos mae'r rhiant yn gweithio, nifer y plant yn y teulu, natur yr aelwyd, a oedd gan y rhiant salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar fywyd. Ac a oedd y rhiant yn teimlo y gallai ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl.

Pan oedd y ffactorau hyn i gyd yn gyson, dim ond y canlynol oedd yn cael dylanwad arwyddocaol ar y rhai a oedd angen gofal plant am o leiaf 10 awr yr wythnos.


- **Oedran y rhieni** – Roedd rhieni 16-24 oed yn fwy tebygol o fod angen i'w teulu a'u ffrindiau i ofalu am eu plentyn am o leiaf 10 awr yr wythnos nag unrhyw grwpiau oedran eraill.
- **Oedran y plentyn** – Rhieni â phlant 0-2 oed oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio gofal plant anffurfiol am o leiaf 10 awr yr wythnos, gyda'r tebygrwydd yn lleihau wrth i oedran y plentyn gynyddu.

## Gofal plant ffurfiol

Yna gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni a oedd yn defnyddio mathau ffurfiol o ofal plant (hynny yw, unrhyw ofal plant nad oedd yn cael ei ddarparu gan deulu a ffrindiau) a oedd yn ymwneud â'u bodlonrwydd â gwahanol elfennau o'r ddarpariaeth. Roedd 19% o bobl wedi defnyddio gofal plant ffurfiol.

Mae Siart 5 yn dangos bod rhieni â phlant 0-2 oed yn fwy tebygol o drefnu gofal plant ffurfiol (25%) na rhai â phlant 5-11 oed (18%) sydd, fwy na thebyg, yn gysylltiedig â'r ffaith bod eu plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

**Siart 5: Defnyddio gofal plant ffurfiol, yn ôl oedran y plentyn**





---

[2] Atchweliad logistaidd – am fanylion gweler Gwybodaeth Ansawdd Allweddol

## Fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol

Gofynnwyd i rieni pa mor hawdd neu anodd oedd hi iddynt i fforddio gofal plant ffurfiol i'w plentyn. Dywedodd 57% o rieni ei bod yn hawdd iddynt i fforddio gofal plant, 20% ei bod yn hawdd iawn. Yng nghanlyniadau 2014-15, dywedodd 11% ei bod yn hawdd iawn i fforddio gofal plant, a oedd yn llai nag yng nghanlyniadau 2016-17. Mae Siart 6 yn dangos pa mor hawdd ac anodd oedd fforddio gofal plant yn y ddwy flynedd.

**Siart 6: Y gallu i fforddio gofal plant, fesul blwyddyn**





Mae fforddiadwyedd gofal plant yn newid hefyd wrth i oedran y plentyn newid. Yn achos plant 0-2 oed, roedd yn rhieni'n ei chael yn anos i fforddio gofal plant (55%) na rhai â phlant 3-4 oed a 5-14 (34% a 38% yn y drefn honno). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â llai o angen i dalu am ofal plant ar ôl i'r plentyn gyrraedd oedran meithrinfa / ysgol.

Roedd 72% o'r rhai mewn amddifadedd materol yn ei chael yn anodd fforddio gofal plant ffurfiol o'i gymharu â 37% o aelwydydd nad oedd mewn amddifadedd materol a oedd yn ei chael yn anodd. Fel y gellid disgwyl mae fforddiadwyedd gofal plant ffurfiol yn gysylltiedig â'r gallu i dalu biliau. Roedd 31% o'r rhai nad oedd yn cael anhawster i dalu biliau ac ymrwymiadau yn ei chael yn anodd fforddio gofal plant o'i gymharu â 51% a oedd yn cael trafferth talu biliau o bryd i'w gilydd.

### Argaeledd gofal plant

Gofynnwyd tri chwestiwn arall i ganfod pa mor hawdd neu anodd oedd rhieni'n ei chael i gael gofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gweithio, yn ystod gwyliau ysgol ac ar ôl ysgol. Mae Siart 7 yn dangos pa mor hawdd / anodd oedd hi i rieni i gael gofal plant yn ystod y gwahanol gyfnodau hyn.


**Siart 7: Pa mor hawdd / anodd yw cael gofal plant ar gyfer gwahanol gyfnodau**




Gallai natur yr aelwyd hefyd fod yn ffactor sy’n effeithio ar ba mor anodd yw hi i gael gofal plant sy’n cyd-fynd ag oriau gweithio. Roedd aelwydydd â dau oedolyn yn llai tebygol o gael anhawster dod o hyd i ofal plant sy’n cyd-fynd ag oriau gweithio (28%) nag aelwydydd un oedolyn a oedd yn ei chael yn anos i gael gofal plant o’r fath (45%).

Mae Siart 8 yn dangos bod pa mor anodd yw hi i ddod o hyd i ofal plant sy’n cyd-fynd ag oriau gweithio ac yn ystod gwyliau ysgol yn newid ag oedran y plentyn. Wrth i oed y plentyn gynyddu, mae’r anhawster hefyd yn cynyddu yn achos y ddau gyfnod. Efallai mai’r rheswm yw am fod gan blant iau drefniadau gofal drwy’r flwyddyn sy’n golygu nad yw gwyliau ysgol mor bwysig.

**Siart 8: Anhawster cael gofal plant yn ystod oriau gweithio a gwyliau ysgol, yn ôl oedran y plentyn**




## Gofal plant yn y Gymraeg

Holodd yr arolwg am argaeledd gofal plant ffurfiol trwy gyfrwng y Gymraeg ac a oedd darpariaeth o'r fath ar gael iddynt os oeddent yn dymuno'i gael. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob rhiant a ddywedodd eu bod yn defnyddio rhyw fath o ofal plant ffurfiol ac o blith y rhain dywedodd 36% nad oeddent yn gwybod a oedd darpariaeth Gymraeg ar gael. Mae'r gyfran hon o atebion 'ddim yn gwybod' yn arbennig o uchel ac oherwydd hyn maent wedi'u cynnwys fel ymateb dilys wrth ddadansoddi'r cwestiwn hwn. Yn ychwanegol at y 36% o atebion 'ddim yn gwybod', dywedodd 43% o rieni eu bod y defnyddio neu y gallant gael gafael ar ofal plant yn Gymraeg a dywedodd 22% nad oedd darpariaeth o'r fath ar gael iddynt. Roedd 73% o rieni a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd[3] yn defnyddio (neu roeddent yn credu y gallant gael) gofal plant ffurfiol yn Gymraeg, o'i gymharu â 34% o rieni nad oedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Dywedodd 43% o'r grŵp di-gymraeg hwn nad oeddent yn gwybod a oedd gofal plant yn Gymraeg ar gael.

Gall yr ardaloedd lle mae pobl yn byw effeithio ar fynediad at ac ar argaeledd gofal plant yn Gymraeg. Mae Siart 9 yn dangos bod Gogledd Cymru, lle mae cyfran uwch o bobl yn siarad Cymraeg, bod 54% o rieni'n cytuno bod gofal plant addas yn y Gymraeg ar gael iddynt os oeddent yn dymuno'i ddefnyddiol. Yn Ne Ddwyrain Cymru, lle mae cyfran yn siaradwyr Cymraeg yn is, dywedodd 33% ei fod ar gael ond dywedodd cyfran uwch (43%) nad oeddent yn gwybod a oedd gofal plant yn y Gymraeg ar gael ai peidio.

**Siart 9: Barn rhieni ar fynediad at ofal plant yn y Gymraeg, yn ôl ardal**




## Bodlonrwydd ag ansawdd gofal plant


Gofynnodd yr Arolwg Cenedlaethol i rieni hefyd a oeddent yn fodlon neu'n anfodlon ag ansawdd y gofal plant ffurfiol roeddent yn ei ddefnyddio. Roedd 93% o rieni'n fodlon (72% yn fodlon iawn, 21% yn weddol fodlon). Roedd y canran hwn yr un fath ag yn 2014-15.

[3] Cymraeg mewn bywyd pob dydd – Dangosydd cenedlaethol

Roedd 83% o rieni plentyn 0 i 2 oed yn fodlon iawn ag ansawdd y gofal plant ffurfiol roeddent yn ei ddefnyddio o'i gymharu â 63% o rieni â phlentyn 5 i 11 oed.

Yn 2016-17, roedd 96% o rieni a oedd yn ei chael yn hawdd cael gofal plant a oedd yn cyd-fynd â'u horiau gweithio yn fodlon ag ansawdd eu gofal plant (86% yn fodlon iawn a 10% yn weddol fodlon). Mae hyn yn cymharu ag 89% o'r rhai a oedd yn ei chael yn anodd cael gofal plant i gyd-fynd â'u horiau gweithio (55% yn fodlon iawn a 34% yn weddol fodlon). Nid oes newid arwyddocaol wedi bod yn y canrannau hyn er 2014-15 fel y gwelir yn siart 10.

**Siart 10: Bodlonrwydd ag ansawdd gofal plant, yn ôl pa mor hawdd yw dod o hyd i ofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gweithio, yn ôl blwyddyn arolwg**




Mae traws ddadansoddiad yn dangos y gall amrywiaeth o ffactorau fel oedran y plentyn, oedran y rhiant, a ydynt yn gweithio ac iechyd cyffredinol fod yn gysylltiedig â bodlonrwydd unigolyn â'r gofal plant a ddefnyddir.

I gael dealltwriaeth well o effaith pob ffactor penodol rydym wedi rheoli ar gyfer ffactorau eraill[4] . Trwy ddefnyddio'r dull hwn, canfuwyd fod y canlynol yn gysylltiedig â bod yn fodlon **iawn** ag ansawdd gofal plant:

- hawdd cael gofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gweithio;
- hawdd cael gofal plant yn ystod gwyliau ysgol;
- byw mewn ardal wledig.

Er bod traws ddadansoddiad wedi canfod bod gwahanol grwpiau oedran plant â lefelau bodlonrwydd gwahanol, dangosodd y dadansoddiad pellach hwn fod y gwahaniaeth ymddangosiadol hwn yn diflannu pan oedd ffactorau eraill yn cael eu rheoli.

[4] Adwaenir y dull hwn fel atchweliad logistaidd. Ceir gwybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad technegol hwn.

## Termau a diffiniadau

### Statws economaidd

Roedd ymatebwyr yn cael eu dosbarthu yn ôl y tri statws economaidd canlynol yn unol â sut yr oeddent wedi disgrifio’r hyn roeddent yn ei wneud yn y 7 diwrnod blaenorol.

<table>
<tr><th>Mewn gwaith</th><th>Yn ddi-waith</th><th>Economaidd anweithgar</th></tr>
<tr><td><ul><li>Mewn unrhyw waith cyflogedig neu hunangyflogaeth (neu oddi cartref dros dro)</li><li>Ar gynllun hyfforddi a noddir gan y llywodraeth</li><li>Yn gwneud gwaith di-dâl i fusnes sy’n eiddo i chi neu berthynas</li><li>Yn aros i ddechrau gwaith cyflogedig a gafwyd eisoes</li></ul></td><td><ul><li>Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith</li><li>Yn bwriadu chwilio am waith ond yn methu oherwydd salwch neu anaf dros dro (28 diwrnod neu lai)</li></ul></td><td><ul><li>Myfyriwr llawn amser (gan gynnwys ar wyliau)</li><li>Methu gweithio oherwydd salwch neu anabledd tymor hir</li><li>Wedi ymddeol</li><li>Yn edrych ar ôl y cartref neu’r teulu</li><li>Yn gwneud rhywbeth arall</li></ul></td></tr>
</table>

### Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesur sydd wedi’i greu i gofnodi canlyniadau tlodi tymor hir ar aelwydydd, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.

Gofynnwyd i oedolion nad ydynt yn bensiynwyr a oeddent yn cael pethau fel ‘gwyliau i ffwrdd o gartref am o leiaf wythnos y flwyddyn’, ‘digon o arian i gadw cyflwr addurnol eu cartref yn dderbyniol’, neu a allent ‘wneud cynilion rheolaidd o £10 y mis neu fwy’. Roedd cwestiynau i oedolion yn gofyn a allent fforddio’r eitemau hyn. Mae’r eitemau hyn ar gyfer ‘yr aelwyd’ mewn gwirionedd yn hytrach nag ar eu cyfer hwy’n bersonol a dyna pam yr arferid cyfeirio atynt fel ‘amddifadedd materol yr aelwyd’.

Gofynnwyd cwestiynau ychydig yn wahanol i bensiynwyr fel a oedd eu ‘cartref yn cael ei gadw’n ddigon cynnes’, a oedd ganddynt ‘ddefnydd o gar neu dacsi, pan oedd angen’ neu a oeddent yn ‘cael trin eu gwallt yn rheolaidd’. Gofynnwyd iddynt hefyd a allent eu fforddio, ond roedd hefyd yn gofyn os nad oeddent yn gallu cael y pethau hyn oherwydd rhesymau eraill, fel afiechyd, neu am nad oedd ganddynt neb i’w helpu ac ati. Roedd y cwestiynau hyn yn rhoi llai o bwyslais ar yr aelwyd ac yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.

Roedd y rhai nad oedd yn cael yr eitemau hyn yn cael sgôr; os nad oeddent yn cael dim un o’r eitemau ar y rhestr, roeddent yn cael sgôr o 100, ac os oeddent yn cael pob eitem, roedd eu sgôr yn 0. Roedd rhai nad ydynt yn bensiynwyr â sgôr o 25 neu fwy’n cael eu cyfrif fel rhai sy’n profi amddifadedd ac roedd pensiynwyr gyda sgôr o 20 neu fwy’n cael eu cyfrif fel rhai sy’n profi amddifadedd.

Gofynnwyd set o gwestiynau i rieni hefyd am yr hyn y gallant ei fforddio i’w plant.

Yn y bwletin hwn mae mesurau amddifadedd pensiynwyr a rhai nad ydynt yn bensiynwyr wedi eu cyfuno i roi newidyn amddifadedd ‘oedolion’. Gellir cyfnewid y termau amddifadedd ‘oedolion’ ac ‘aelwyd’ yn ddibynnol ar y cyd-destun.

## Gwybodaeth ansawdd allweddol

### Cefndir

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a gyhoeddir yn y bwletin yn seiliedig ar gyfweliadau a gwblhawyd yn 2016-17 (30 Mawrth 2016 – 31 Mawrth 2017).

Deilliodd y sampl o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol, lle'r oedd pob cyfeiriad preswyl a mathau o anheddau wedi'u cynnwys yn y broses o ddethol y sampl cyhyd â'u bod wedi'u rhestru fel cyfeiriadau unigol. Os oeddent wedi'u cynnwys fel cyfeiriadau unigol ar y PAF, roedd cartrefi parc preswyl ac anheddau eraill wedi'u cynnwys o fewn y ffrâm samplu ond nid yw sefydliadau cymunedol fel cartrefi gofal a barics y fyddin ar y PAF ac felly ni chawsant eu cynnwys.

Roedd sampl yr Arolwg Cenedlaethol yn 2016-17 yn cynnwys 21,666 o gyfeiriadau a ddewiswyd ar hap o'r PAF. Roedd cyfwelwyr yn ymweld â phob cyfeiriad, yn dewis un oedolyn (16+ oed) ar hap ar yr aelwyd, ac yn cynnal cyfweliad wyneb yn wyneb 45 munud o hyd â hwy, a oedd yn holi eu barn ar ystod o bynciau sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Cafodd cyfanswm o 10,493 o gyfweliadau eu cynnal.

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau a ddyfynnir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny'n unig a atebodd y cwestiwn perthnasol. Cafodd rhai cwestiynau yn yr arolwg wedi eu gofyn i is-sampl o ymatebwyr yn unig ac nid oedd cwestiynau eraill wedi eu gofyn os oedd y cwestiwn yn amherthnasol i'r ymatebwr. Gall atebion coll ddigwydd am sawl rheswm, gan gynnwys amharodrwydd neu anallu i ateb cwestiwn penodol.

Os canfuwyd cydberthynas rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu ei bod yn gydberthynas achosol. Mae angen dadansoddiad mwy manwl i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae'r canlyniadau wedi'u pwysoli i sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

### Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i beth ansicrwydd. Daw rhan o'r ansicrwydd o'r ffaith bod unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe byddai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder fel arweiniad i faint y cyfeiliornad samplu. Mae'r cyfyngau hyn yn cael eu cyfrifo ar sail amcangyfrif yr arolwg ac yn rhoi ystod lle mae'r gwir werth yn debygol o fod. Mewn 95% o samplau arolygon, bydd y cyfwng hyder 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigur ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael os byddai'r arolwg yn cynnwys y boblogaeth gyfan). Ar y cyfan, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf fydd y cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi'u cynnwys yn y tablau o ganlyniadau arolygon a gyhoeddir yn StatsCymru.

Fel gydag unrhyw arolwg, mae’r Arolwg Cenedlaethol yn agored i ystod o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, o ganlyniad i ddiffyg ymateb, am nad yw ymatebwyr yn dehongli’r cwestiynau fel y bwriadwyd neu efallai nad ydynt yn eu hateb yn gywir; ac oherwydd bod perygl i gyfeiliornadau gael eu cyflwyno wrth i ddata’r arolwg gael ei brosesu. Mae’r mathau hyn o gyfeiliornadau’n cael eu hadnabod fel cyfeiliornadau nad ydynt yn gyfeiliornadau samplu, a thrafodir hyn ymhellach yn yr adroddiad ansawdd ar gyfer yr arolwg.

### Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle mae testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng canlyniadau dau Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o'i gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan gaiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

### Dadansoddiad atchweliad

Ar ôl ystyried canlyniadau’r arolwg, ymgorfforwyd ffactorau yr oeddem yn credu sy’n debygol o gael dylanwad ar bwy oedd angen gofal plant di-dâl gan deulu a ffrindiau am o leiaf 10 awr yr wythnos a phwy oedd yn fodlon iawn ar ansawdd y gofal plant yn y model atchweliad. Roedd y modelu terfynol yn cynnwys y ffactorau hynny sy'n aros yn arwyddocaol hyd yn oed ar ôl cynnal y ffactorau eraill yn gyson. Mae’r ffactorau arwyddocaol hyn yn cael eu trafod yn y bwletin hwn.

Mae rhagor o fanylion ar y ffordd y lluniwyd y dadansoddiad atchweliad yn yr adroddiad hwn, ac ar y model atchweliad, ar gael yn yr Adroddiad Technegol: Dull o weithredu dadansoddiad atchweliad a’r modelau a gynhyrchwyd.

### Adroddiad technegol

Ceir gwybodaeth fwy manwl ar fethodoleg yr arolwg yn yr adroddiad technegol ar gyfer yr arolwg.

### Adroddiad ansawdd

Mae Adroddiad Ansawdd cryno ar gael, sy’n cynnwys gwybodaeth fwy manwl ar ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o’r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio’r canlyniadau.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu fod yr ystadegau swyddogol yn cwrdd â'r safonau uchaf o ddibynadwyaeth, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd o'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Ceir eu dyfarnu fel statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan fraich rheoli Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig. Mae'r Awdurdod yn ystyried os ydy'r ystadegau yn cwrdd â'r safonau uchaf o gydymffurfiad â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ychwanegu i benderfyniadau a dadlau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod. Gall statws Ystadegau Gwladol gael ei diddymu ar unrhyw bryd pan mae'r safonau uchaf heb eu cynnal, a'i ddyfarnu unwaith eto pan mae'r safonau yn cael eu hadfer.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn  ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 1 o'r dangosyddion cenedlaethol sef 36.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys 1 o ddangosyddion cyd-destunol, sef 36 y cyfeiriwyd atynt yn y ddogfen dechnegol neu'r adroddiad Llesiant Cymru yn y ddolen flaenorol.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn: http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?lang=cy

## Diweddariad nesaf

Nid yw'n gyhoeddiad rheolaidd.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at arolygon@llyw.cymru.

## Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.